

## Arloesi a'r Dyfodol

### Beth yw arloesi?

Gall arloesi weithiau ymddangos fel term brawychus ac anhygyrch, sy'n gwneud i chi feddwl am ddelweddau o robotiaid, ffuglen wyddonol a phobl fel Thomas Edison a Steve Jobs. Ond ar ei symlaf, mae arloesi yn golygu creu a gweithredu syniadau, dulliau, cynhyrchion a ffyrdd newydd o weithio, a gall unrhyw un arloesi! I ddysgu mwy am yr hyn a olygwn gan y term 'arloesi', edrychwch ar ein [canllaw](#) rhagarweiniol.

Mae ystyried Eiddo Deallusol yn rhan bwysig o arloesi. Er mwyn gwneud hyn yn haws i chi, mae'r Hyb wedi creu [canllaw](#) ar y pwnc. Gan adeiladu ar hyn, mae Mark Briggs, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arloesedd yn BIP Caerdydd a'r Fro, yn esbonio pryd i stopio a meddwl cyn rhannu eich gwybodaeth a'ch syniadau yn "[Don't tell him, Pike!](#)" - What is Intellectual Property?

Er mwyn eich helpu i roi eich syniadau arloesol ar waith, mae'r Hyb yn parhau i ddatblygu'r gyfres Canllawiau Arloesi. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'r Hyb wedi cyhoeddi canllawiau ar [Fetrigau Perfformiad a Chanlyniadau](#), [Llywodraethu](#) a [Dull sy'n Seiliedig ar Werthoedd](#). Cysylltwch os oes unrhyw bynciau a fyddai'n ddefnyddiol i chi neu i'ch tîm i'r Hyb ganolbwyntio arnynt.

### Technoleg Glyfar


#### Tŷ Clyfar

Mae'r Hyb wedi gweithio gydag Innovate Trust i arddangos Tŷ Clyfar arloesol ym Mro Morgannwg. Mae'r tŷ yn defnyddio technoleg glyfar arloesol i helpu i gynyddu sgiliau annibyniaeth preswylwyr sydd ag anghenion cymhleth ac anabledau dysgu sy'n trosglwyddo o'r ysgol neu'r coleg i'r gymuned. Mae tîm y Tŷ Clyfar yn addasu technoleg yn barhaus ar gyfer pob preswlydd newydd, gan fynd i'r afael ag anghenion unigol a lleihau'r cymorth ychwanegol sydd ei angen.



[Yn y ffilm hon](#), mae Shyanne yn rhannu ei stori am sut mae'r Tŷ Clyfar yn ei helpu i gyflawni ei nod o fyw'n annibynnol ac mae Innovate Trust yn rhannu sut mae gweithio mewn partneriaeth yn gwella canlyniadau i bobl.

Mae technoleg glyfar yn hynod addasol ac mae ganddi'r potensial i wella bywydau grwpiau eraill o'r boblogaeth. Cysylltwch â ni os hoffech drafod sut y gallwch ddefnyddio technoleg glyfar yn eich maes gwasanaeth.



# Technoleg y gellir ei gwisgo i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant yn BIP Caerdydd a'r Fro

Mae tîm Teuluoedd Egniol, Bywydau Egniol (AFAL) Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithio i leihau cyfraddau gordewdra ymhlith plant drwy gynnig ap ward rhithwir ochr yn ochr ag oriawr ffitrwydd y gellir ei gwisgo fel rhan o Raglen Arloesi Gofal wedi'i Gynllunio Comisiwn Bevan, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Dysgwch fwy am y prosiect ar [wefan Llundio Newid BIP Caerdydd a'r Fro](#).

*“Rwyf eisoed yn gweld yr effaith rymusol y mae'r prosiect hwn yn ei chael o ran cefnogi cysylltiad â phobl ifanc.” - Sian Moynihan, Pediatregydd Cymunedol Ymgynghorol ac Arweinydd Clinigol*



Ysgol Ymchwil, Datblygu ac Arloesi  
School of Research, Development and Innovation

## Technoleg Glyfar ym Mhowys

Mae Hyb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol (RIC) Powys wedi gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru i archwilio arloesedd robotig ac wedi dod â Pepper, robot lled-ddynolffurf, yn fyw! Dros y flwyddyn nesaf, bydd Hyb RIC Powys yn parhau i archwilio sut y gellir defnyddio Pepper i ddarparu gwell cefnogaeth i staff a thrigolion y rhanbarth.



Mae Hyb RIC Powys hefyd wedi cymeradwyo HoloLens, penset realiti rhithwir/realiti cymysg sy'n galluogi defnyddwyr i weld a rhyngweithio â mathau amrywiol o gynnwys sy'n cael eu harddangos drwy'r penset. Gellir defnyddio'r dechnoleg hynod ddifyr mewn sawl ffordd, o arddangos symptomau claf holograffig i greu senarios iechyd a gofal rhithwir at ddibenion hyfforddi a datblygu.


I gael rhagor o wybodaeth ac i archwilio dod â'r dechnoleg hon i ranbarth Caerdydd a Bro Morgannwg, edrychwch ar [Adroddiad Blynyddol Hyb RIC Powys](#) neu cysylltwch â'r tîm drwy e-bostio [bright.ideaspowys@wales.nhs.uk](mailto:bright.ideaspowys@wales.nhs.uk)

## Yr Academi Lledaeniad a Graddfa

Mae Sefydliad Calon y Ddraig yn falch iawn o gyhoeddi'r Academi Lledaeniad a Graddfa sydd i ddod, a fydd yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd rhwng 4 a 6 Hydref, 2023. Nod yr academi yw cefnogi timau gyda phrosiectau arloesol sy'n barod i ehangu a bod o fudd i gynifer o bobl â phosibl.

Mae'r Academi Lledaeniad a Graddfa yn gyfle unigryw i wneuthurwyr newid, gweledyddion, ac arloeswyr fireinio eu syniadau, caffael gwybodaeth werthfawr, a chydweithio ag unigolion o'r un anian. Trwy ddarparu llwyfan i ddysgu a rhwydweithio, mae'r academi yn grymuso cyfranogwyr i ehangu effaith eu prosiectau a sbarduno newid cadarnhaol yn eu priod feysydd.

Ewch i [wefan](#) Sefydliad Calon y Ddraig i wneud cais. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich cais yw 28 Gorffennaf 2023.



## Llwyddiant yr Academi Lledaeniad a Graddfa

Yn 2019, bu Paul Twose, therapydd ymgynghorol yn BIP Caerdydd a'r Fro, a'i dîm yn datblygu ac yn cyflymu lledaeniad hyfforddiant realiti rhithwir ar gyfer addysg traceostomi drwy'r Academi Lledaeniad a Graddfa. Y nod oedd gwella sgiliau a hyder staff a, thrwy hynny, gwella canlyniadau i gleifion, ond hefyd i leihau amrywiadau yn y system iechyd a gofal. Arweiniodd hyn at lansio Cronfa Her gwerth £400,000 gyda chytundeb Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chanolfan Ragoriaeth SBRI ar gyfer rhaglen hyfforddi traceostomi newydd i staff.



“Rwy’n sicr pe na bawn wedi mynychu’r Academi Lledaeniad a Graddfa honno yn 2019, y byddwn wedi treulio fy ngyrfa gyfan yn ceisio cyrraedd y man yr wyf wedi’i gyrraedd nawr, o ran y ffordd rwy’n ymateb i heriau a’r prosiectau rwy’n gweithio arnynt. Yn lle hynny, dim ond ychydig flynyddoedd y mae wedi ei gymryd.” - Paul Twose, Therapydd Ymgynghorol

## Comisiwn Bevan

### Lleihau Gwastraff Gyda’n Gilydd

**Comisiwn  
Bevan  
Commission**

Mae Comisiwn Bevan wedi sefydlu’r rhwydwaith Lleihau Gwastraff Gyda’n Gilydd i ganolbwyntio ac ymdrechu ar y cyd i sicrhau gostyngiad amlwg mewn gwastraff ym maes iechyd a gofal. Mae’r rhwydwaith yn llwyfan i rannu syniadau, arfer da a chydweithio ar ddatblygu datrysiadau i leihau gwastraff. Ewch i [dudalen we Lleihau Gwastraff Gyda’n Gilydd](#) i ddarganfod mwy ac ymuno â’r rhwydwaith.

### Y Pwynt Tyngedfennol: Lle nesaf i iechyd a gofal?

Ymunwch â ni yn nigwyddiad ‘[Y Pwynt Tyngedfennol: Lle nesaf i iechyd a gofal?](#)’ Comisiwn Bevan ar 5- 6 Gorffennaf i glywed sgwrs agored a gonest am ddyfodol ein system iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd y digwyddiad yn ymdrin â 4 thema bwysig:

- Datblygu Pobl a Chymunedau Gwydn a Dyfeisgar
- Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol o Ansawdd sy’n Addas i Bobl
- Creu Dulliau Cynaliadwy ac yr Un Mor Dda
- Trawsnewid i Fod yn Addas ac yn Hyblyg ar gyfer y Dyfodol

### Mae’r siaradwyr yn cynnwys:

- Y Prif Weinidog y Gwir Anrh Mark Drakeford AS
- Yr Athro Syr Chris Ham
- Yr Arglwydd Nigel Crisp KCB
- Syr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol
- Yr Athro Syr Don Berwick
- Y Fonesig Sue Bailey
- Yr Athro Syr Michael Marmott
- Yr Athro Syr Andy Haines
- Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eluned Morgan, AS
- Judith Paget, CBE
- Syr David Haslam, CBE
- Yr Athro Donna Hall, CBE

Edrychwch ar ein [gwefan](#) i weld mwy o’n gwaith neu cysylltwch â ni drwy e-bostio [Dylan.John4@wales.nhs.uk](mailto:Dylan.John4@wales.nhs.uk)

